

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	2 Gorffennaf 2019
Aelod Arweiniol:	Y Cynghorydd Richard Mainon
Awdur yr Adroddiad:	Steve Price (Rheolwr Gwasanaethau Democraidd) a Kath Jones (Gweinyddwr Pwyllgorau)
Teitl:	Amserlen y Pwyllgorau 2020

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ac yn gofyn am benderfyniadau ar faterion yn ymwneud â phwyllgorau.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2020 yn unol â phenderfyniad y Cyngor i gynnal amserlen 18 mis er mwyn galluogi cadarnhau manau cyfarfod ac adnoddau, cyhoeddi'r amserlen a llenwi dyddiaduron yr Aelodau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen bwyllgorau ddrafft ar gyfer 2020.

4. Manylion yr Adroddiad

Amserlen Bwyllgorau

Mae'r amserlen gyfredol o gyfarfodydd pwyllgorau'n parhau tan ddiwedd 2019 ac fe fydd yn cael ei hystyngi tan ddiwedd 2020 yn unol â chais y Cyngor i gynnal amserlen 18 mis. Mae'r amserlen ddrafft ar gyfer 2020 yn amgaaedig fel atodiad 1 ac mae hefyd yn cynnwys eglurhad fesul pwyllgor o'r ffactorau sydd y tu ôl i nodi dyddiadau addas ar gyfer pob cyfarfod.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniadau a gwybodaeth yn deillio o'r adroddiad hwn yn ganolog i weithrediad y systemau democraidd a phwyllgor sydd yn elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae costau cynnal system pwyllgorau yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ond fe wnaeth y Cyngor ymrwymiad yn 2015, drwy ei broses *Rhyddid a Hyblygrwydd*, i leihau nifer y cyfarfodydd pwyllgor a gynhelir i arbed costau cysylltiedig. Gall gwasanaethau

ar draws y Cyngor gyfrannu at y cyfarfodydd a gynhwysir yn yr amserlen, fel arfer trwy gyfrannu gwybodaeth, adroddiadau ac amser swyddogion.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

Mae'r amserlen flynyddol o gyfarfodydd yn broses sefydledig ac yn cwrdd ag amcanion lles a deddfwriaeth gydraddoldeb. Y prif 'ddefnyddwyr gwasanaeth' yw'r aelodau o'r pwyllgorau a'r swyddogion ategol, er bod y wasg a'r cyhoedd hefyd yn gallu mynychu'r mwyafrif o gyfarfodydd, neu'n gallu gwyllo cyfarfodydd gwe-ddarlledu ar-lein. Mae lefel y diddordeb neu'r ymgysylltiad ag unigolion neu grwpiau'n debygol o ddibynnu i raddau helaeth ar y pwnc o dan ystyriaeth.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

Ymgynghorir â'r Cyngor ar y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn. Ymgynghorwyd â'r swyddogion sy'n cefnogi gwaith y pwyllgorau gwahanol ynghylch yr amserlen bwyllgor, i nodi dyddiadau posibl ar gyfer cyfarfodydd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai methu â chadarnhau'r amserlen yn niweidiol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972